

## Wyddech chi?

- Bob blwyddyn, mae PPO yn ymdrin â miloedd o **gwynion gan garcharorion**.
- Mewn ymateb i'r cwynion hyn, fe wnaeth PPO bron i fil o **argymhellion i garchardai** yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae canlyniadau ein hymchwiliadau yn gwneud carchar yn lle **mwyr teg, mwyr diogel** i garcharorion ar draws y wlad.

"Rydw i, a llawer o garcharorion eraill dwi'n siwr, yn lwcus fod gennym gorff annibynnol y gallwn droi ato am help. Diolch."

Carcharor A,  
HMP Northumberland

## Y Gwir am PPO

- Dydyn ni ddim yn gweithio i'r Swyddfa Gartref, dydyn ni ddim yn gweithio i NOMS. Mae PPO yn **gwbl annibynnol**.
- Ni fydd eich cwynion **yn cael eu darllen gan y carchar**, ac ni fyddant yn cael eu defnyddio yn eich erbyn.
- Rydym yn derbyn miloedd o gwynion gan garcharorion bob blwyddyn. **Fe FYDDWN yn cael eich rhai chi**.
- Os ydym yn cytuno gyda chi, gallech gael **ymddiheuriad; cael eich digolledu; hyd yn oed newid yn y modd y mae'r carchar yn gweithio**.
- Rydym yn anelu at ateb eich cwyn o **fewn 10 diwrnod** o'i derbyn.

lawn, felly beth alla'  
i gwyno amdano?

## Beth allwch chi gwyno amdano?

**Gallwch gwyno i'r PPO am bob math o bethau – o'r modd y mae staff yn eich trin i'r eiddo rydych wedi ei golli.**

Ond, mae yna rai pethau na allwn ymchwilio iddyn nhw:

- Penderfyniadau'r Bwrdd Parôl.
- Cwynion am ofal meddygol.
- Fel rheol gyffredinol, os yw'n fwy na 3 mis ers yr ateb terfynol o'r carchar am eich cwyn wreiddiol.
- Rhaid i'r gwyn fod am rywbeth a ddigwyddodd i chi, nid i rywun arall.

## Sut i Gwyno

Felly sut ydw i'n cwyno i'r PPO?

**Gofalwch eich bod yn dilyn y tri cham hawdd. Os nad ydych yn gwneud, allan' nhw ddim ymchwilio.**

- 1** Gofalwch eich bod yn mynd drwy broses gwynion y carchar i gyd yn gyntaf.
- 2** Ysgrifennwch nodyn byr yn dweud wrthym beth yw eich cwyn – a pham dydych chi'n dal ddim yn hapus.

Anfonwch eich gwaith papur i gyd

- 3** atom – gan gynnwys holl ffurflenni cwyno'r carchar.

## Ble i anfon eich cwyn

Ble dylwn i anfon yr holl waith papur?

**Anfonwch yr holl waith papur am eich cwynion i'r cyfeiriad hwn:**

Prisons and Probation Ombudsman  
PO Box 70769  
London  
SE1P 4XY

Mae eich llythyrau at yr Ombudsmon yn rhad ac am ddim.

"Diolch i chi am yr holl waith ac ymdrech rydych yn ei roi i gynnal eich ymchwiliad, mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr."

Carcharor B,  
HMP Kennet

Prisons &  
Probation  
Ombudsman  
Independent Investigations

## Sut i Gwyno i'r Ombudsmon

